**Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol yn y Cynulliad**
**Ymchwiliad i amrywiaeth cynrychiolaeth ymysg ymgeiswyr y Cynulliad**

***Tystiolaeth Llafur Cymru***

Mae gan Lafur Cymru enw da yn hyrwyddo amrywiaeth, sydd yn dyddio'n ôl i'r dewisiadau ar gyfer etholiadau cyntaf y Cynulliad ym 1999.

Ar hyn o bryd, mae grŵp Llafur Cymru yn cynnwys 15 o fenywod a 14 o ddynion, ac mae hyn yn bwydo cynrychiolaeth gref menywod yn Llywodraeth Cymru, a swyddi etholedig yn y Cynulliad. Yn ogystal, mae gan grŵp Llafur Cymru enw da o ran amrywiaeth gyda chynrychiolwyr etholedig LGBT, BAME ac anabl.

Yr uchelgais yw gwneud mwy mewn meysydd lle mae angen i ni fynd ymhellach, ond rydym yn falch o'n llwyddiant hyd yn hyn sydd yn dangos gymaint y gall plaid wleidyddol ei gyflawni.

**Cwestiwn 1 – cyhoeddi data amrywiaeth**

Yn fras, ni fyddai cyhoeddi data o'r fath yn achosi unrhyw rwystrau ymarferol gan fod Llafur Cymru'n casglu data cyfle cyfartal fel rhan o'r broses ddethol, ond mae hyn yn cael ei wneud yn gyfrinachol ar hyn o bryd a byddai angen i ni newid hynny i'r dyfodol er mwyn gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus a fyddent yn fodlon rhannu eu data.

Mae gennym rai pryderon y gallai rhannu'r data achosi anawsterau i rai unigolion, efallai na fydd ymgeiswyr LGBT neu anabl yn arbennig eisiau datgelu'r wybodaeth bersonol yma wrth geisio cael eu dethol neu eu hethol yn y lle cyntaf.

Rydym hefyd yn poeni, gyda sampl mor fach, y byddai datgan ffigurau ar gyfer pob plaid, hyd yn oed pe byddai'r rheiny'n ddienw, yn arwain at geisio adnabod y rheiny, ac y gallai'r ymgais fod yn llwyddiannus.

Byddai angen rhestr gytûn o gategorïau a'u diffiniad er mwyn sicrhau cysondeb ar draws pleidiau a hyd yn oed wedyn, gallai fod anghysondebau yn seiliedig ar ddiwylliannau gwleidyddol amrywiol. Er enghraifft, gallai aelodau o darddiad Gwyddelig mewn un blaid fod yn fwy tebygol o ddiffinio eu hunain fel BAME na'u cyfoedion mewn pleidiau eraill.  Gyda samplau mor fach, gallai gwahaniaethau fel hyn greu darlun camarweiniol.

Yn anad dim, rydym yn pwysleisio mai'r nod yw sicrhau Cynulliad mwy amrywiol a chyfraniad y pleidiau i'r canlyniad hwn ddylai gael ei fesur. Gallai fod rhai manteision hirdymor i unigolion o grwpiau a dangynrychiolir wrth sefyll fel ymgeiswyr aflwyddiannus a chael profiad a allai arwain at lwyddiant mewn etholiadau yn y dyfodol, ond dylid annog pleidiau i ganolbwyntio eu hymdrechion ar seddi etholaethol

a rhestr lle mae'r rheiny sy'n cael eu dethol yn debygol o gael eu hethol. Ni ddylid rhoi clod i'r rheiny sydd yn dethol aelodau o grwpiau a dangynryciholir ar gyfer seddi etholaethol neu restr nad ydynt yn eu hennill yn unig. Pe byddai deddfwriaeth yn gwneud cyhoeddi yn ofynnol, rydym o'r farn y dylai fod yn seiliedig ar ganlyniadau h.y. y ffigurau ar gyfer ACau etholedig, nid ymgeiswyr, pob plaid.

**Cwestiwn 2. – Rhannu Swydd**

Mae Llafur Cymru'n croesawu'r gwaith arloesol sy'n cael ei wneud gan rai awdurdodau lleol ar rannu swydd yn y Cabinet a swyddi eraill. Mae'r blaid ei hun bellach yn datblygu rhannu swyddi'r blaid yn lleol. Rydym yn awyddus i ddysgu gwersi o waith ymarferol o'r math hwn.

Ni does gan Lafur Cymru safbwynt ar rannu swyddi ar gyfer ACau ond hoffem weld mwy o eglurder ar yr hyn y gallai ei olygu yn ymarferol.

Byddai angen rhoi arweiniad ar y ffordd y gellir rhannu'r rôl hon. Gan nad oes unrhyw oriau gwaith penodol ac am nad oes llawer o ddiffiniad o swydd Aelod o'r Cynulliad y tu allan i'r Senedd fel ymgyrchydd, gweithiwr achos ac aelod gweithredol o'r gymuned, byddai angen gweithio ar y ffordd y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol. Yn ogystal, byddai angen i bleidiau gwleidyddol ddiweddaru eu rheolau, eu gweithdrefnau a'u canllawiau eu hunain ar y ffordd y byddai rhannu swydd yn gweithio o fewn strwythur y blaid.

Ein prif bryder fyddai eglurder ar faterion cyfansoddiadol:

- Beth fyddai'n digwydd pe byddai un o'r bobl sydd yn rhannu'r swydd yn marw, yn cael eu gwahardd neu'n penderfynu ymddiswyddo? Gan gymryd eu bod wedi cael eu hethol fel tîm rhannu swydd, byddai'n rhesymegol gofyn am is-etholiad ar yr adeg hon. Gan fod dau unigolyn yn gysylltiedig, byddai'r tebygolrwydd o fod angen is-etholiad am y rhesymau hyn yn fwy a byddai hyn yn arwain at gostau i'r cyhoedd ac i'r pleidiau.
- Yn yr un modd, a fyddai gwaharddiad dros dro yn berthnasol i'r ddau bartner?
- Beth fyddai'n digwydd pe byddai'r berthynas rhwng y ddau AC yn chwalu, yn arbennig pe byddai un yn penderfynu encilio i blaid arall a bod eu partner yn aros gyda'r blaid wreiddiol? Pwy, yn yr achos hwnnw, allai hawlio'r bleidlais mewn sesiynau llawn a meddiannu lleoedd ar bwyllgorau, a sut byddai maint pob grŵp yn cael ei gyfrifo o ran dyraniadau cymesur?
- Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn gwahaniaethu rhwng gweinidogion ac ACau eraill. A fyddai'n ofynnol ar ACau sydd yn rhannu swydd i rannu rolau gweinidogaethol neu a fyddai un person yn gallu derbyn swydd gweinidog. Os felly, beth fyddai statws AC sydd yn rhannu swydd os yw ei bartner neu ei phartner wedi cael eu penodi fel gweinidog?
- Beth fyddai'n digwydd, a pha aelod fyddai'n cael y bleidlais, pe byddai anghytundeb ynghylch pleidlais benodol?

- Sut byddai recriwtio a rheoli llinell staff yn gweithio? Beth fyddai'n digwydd i'r staff hynny mewn sefyllfa lle mae'r berthynas yn chwalu?

O safbwynt lles personol pobl sydd yn rhannu swydd, byddem eisiau sicrhau na fyddai hyn, yn ymarferol, yn arwain at ddau berson yn gwneud swydd amser llawn ar un cyflog. Nid oes unrhyw derfynau ar oriau gwaith ACau ac mae pryder y byddai etholwyr a sefydliadau lleol yn arbennig yn disgwyl mwy o'r ddau AC nag sydd yn rhesymol. Yn yr un modd, byddai angen i ni reoli disgwyliadau pleidiau lleol o ran eu cyfraniadau i ymgyrchu ac adrodd ac ni fyddai hyn, o reidrwydd, yn hawdd. Yn amlwg, byddai disgwyliadau gwahanol gan y rheiny sydd yn rhannu swyddi eu hunain, a chan fod ymgyrchu'n cael ei wneud yn wirfoddol, byddai'n anodd iawn cyfyngu neu fonitro.

Byddai'r gallu i ddangos y byddai rhannu swydd yn arwain at lwyth gwaith y gellir ei reoli ar gyfer y ddau bartner yn gwneud gwahaniaeth amlwg i'w effeithiolrwydd yn hybu amrywiaeth. Mae angen ystyried y materion hyn yn llawer manylach felly.

O ran monitro amrywiaeth, byddem eisiau gweld rhagofalon cryf yn erbyn defnyddio rhannu swydd i guddio diffyg cynnydd. Yn narpariaethau mewnol y Blaid Lafur ar gyfer rhannu swyddi'r blaid yn lleol, rydym wedi bod yn glir na ellir cyfrif menyw yn rhannu swydd gyda dyn mewn cwotâu rhyw. Rydym yn disgwyl i unrhyw ddeddfwriaeth sydd yn gofyn am gyhoeddi data amrywiaeth neu greu cwotâu rhyw deddfwriaethol i ddefnyddio dull yr un mor gadarn.

## Cwestiwn 3. Cwotâu rhyw ymgeiswyr deddfwriaethol

Ni allwn weithredu cyn ymgynghoriad y blaid ar ddulliau ethol yn y dyfodol trwy roi sylwadau manwl ar gwotâu sy'n cael eu cynnig o dan systemau amgen. Rydym, fodd bynnag, yn pwysleisio pe byddai cwota ymgeiswyr yn cael ei weithredu mewn system rhestr agored, byddai'n hawdd ei danseilio gan blaid sydd yn dewis eirioli'r defnydd o bleidlais gyntaf ac ail bleidlais ar gyfer ymgeiswyr gwrywaidd.

O ran y system bresennol, rydym yn gwrthod unrhyw gynnig sydd yn cyfyngu ar ddatblygu menywod. Mae cwotâu ein plaid bob amser wedi bod yn seiliedig ar isafswm menywod i gael eu hethol ac rydym o'r farn mai dyma'r dull cywir mewn cymdeithas anghyfartal. Rydym yn gwrthwynebu unrhyw ofyniad cyfreithiol i gael cymaint o ymgeiswyr gwrywaidd ag ymgeiswyr benywaidd.

Yn yr un modd, rydym yn gwrthwynebu unrhyw ofyniad i am-yn-eilio yn seiliedig ar osod ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd am yn ail. Mae ein rheolau ar hyn o bryd yn gofyn i'r am-yn-eilio ddechrau gydag ymgeisydd benywaidd a galluogi'r ail le i gael ei gymryd gan fenyw os yw'r lle ar y brig wedi ei gymryd gan AC Llafur benywaidd sydd wedi ei hailethol. Byddai'r cynigion felly'n lleihau'r cyfleoedd ar gyfer menywod.

Mae gosod cwotâu ar sail ranbarthol yn cyflwyno rhai problemau. Fel yr amlinellir uchod, rydym o'r farn y dylai ymdrechion i wella amrywiaeth fod yn seiliedig ar ganlyniadau, gan ganolbwyntio ar y niferoedd gwirioneddol a etholwyd i'r Cynulliad. Mae gan bob plaid ranbarthau sydd yn gryfach ac yn wannach yn etholiadol a byddai unrhyw ofyniad am gwotâu rhyw llym ym mhob rhanbarth yn torri ar draws gwaith wedi ei dargedu o'r fath ac yn galluogi pleidiau i fodloni'r cwota trwy gael menywod i sefyll ar gyfer seddi y maent yn llai tebygol o'u hennill. Gan fod gan Lafur Cymru ac un blaid arall fwy o ACau sydd yn fenywod na dynion yn barod, rydym hefyd yn bryderus y byddai angen i ddeddfwriaeth y DU gyd-fynd ag unrhyw ddeddfwriaeth y Cynulliad i ymestyn yr ethriad presennol o ddeddfwriaeth cydraddoldeb er mwyn sicrhau ein bod yn gallu defnyddio rhestrau byr yn cynnwys menywod yn unig neu efeillio mewn detholiadau etholaethol er mwyn bodloni cwota rhanbarthol.

Gan edrych ar yr angen i gynyddu nifer y grwpiau a dangynrychiolir, rydym yn bryderus ynghylch unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gwotâu rhyw a allai gyfyngu ar hawl pleidiau i ddewis ble i osod eu cyfyngiadau rhyw eu hunain a ble i gael rhestrau byr agored er mwyn gwella eu siawns o gyrraedd nodau amrywiaeth eraill.

**Cwestiwn 4. Cymorth i weithredu diwygio**

Ni fyddai angen unrhyw gymorth mawr arnom i ymdrin â dau o'r tri mater a godir yn y cwestiwn.

Fel y nodir uchod, rydym yn disgwyl i unrhyw system o gyhoeddi data amrywiaeth gael ei hategu gan ymgynghoriad a chytundeb ar y rhestr o gategorïau a'u diffiniadau er mwyn sicrhau cymariaethau dilys. Byddai hyn, yn naturiol, yn arwain at ddarparu ffurflenni monitro cyffredin a denydd ategol i'w defnyddio gan bob plaid.

Mae gennym brofiad sylweddol yn gweithredu mesurau i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ac mae gennym ddulliau dibynadwy o gyflawni hyn.

Fel yr amlinellir uchod, mae gennym nifer o gwestiynau sylfaenol am natur rhannu swydd a gynigir a byddai hyn yn effeithio ar y cymorth fyddai ei angen. Mewn unrhyw amgylchiadau, byddai angen atebion clir iawn ar bleidiau ar gyfer y cwestiynau cyfansoddiadol a godir uchod y gallent eu rhannu gydag aelodau a allai ystyried gwneud cais i gael eu dethol fel tîm rhannu swydd a'u defnyddio i ffurfio eu rheolau dethol eu hunain.

Pe byddai rhannu swydd yn cael ei fabwysiadu, byddem yn disgwyl i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru sefydlu ymgyrch addysg gyhoeddus sylweddol i osgoi'r problemau baich gwaith a nodir uchod.

Yn anad dim, fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai mwyafrif unrhyw adnoddau sydd ar gael dargedu denu ac annog mwy o aelodau o grwpiau a dangynrychiolir i ystyried

[redacted]

dod ymlaen i gael eu dethol a'u hethol. Gellir gwneud rhywfaint o'r gwaith hwn ar sail niwtral, nad yw'n ymwneud â phlaid wleidyddol ond yn ein barn ni, mae angen gwaith sy'n benodol i blaid wleidyddol yn y maes hwn. Mae Rhaglen Ymgeiswyr y Dyfodol Llafur wedi cael rhywfaint o lwyddiant ond hoffem ymestyn y gwaith hwn ac nid yw hyn yn rhad. Rydym felly'n annog gwneud grantiau ar gael i bleidiau ar gyfer costau penodol, y gellir eu profi mewn cysylltiad â gwaith i hyrwyddo amrywiaeth ymgeiswyr. Gallai hyn gynnwys cymorth gyda chostau argraffu, llogi lleoliad, costau teithio ar gyfer cyfranogwyr a thalu tiwtoriaid allanol lle y bo'n briodol. Mae'n hanfodol sicrhau bod pobl yn barod ac yn awyddus i achub ar y cyfleoedd sy'n cael eu creu gan ddarpariaethau strwythurol.

Louise Magee
Ysgrifennydd Cyffredinol
Llafur Cymru
[redacted]